

PRYSE, JOHN (1826 - 1883), argraffydd a chyhoeddwr llyfrau

Enw: John Pryse
Dyddiad geni: 1826
Dyddiad marw: 1883
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: argraffydd a chyhoeddwr llyfrau
Maes gweithgaredd: Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Idwal Lewis

Ganwyd yn 1826 yn sir Faesyfed, ond yn Llanidloes, Sir Drefaldwyn, y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Prentisiwyd ef yn grydd ond yn gynnar ymsefydlodd yn nhref Llanidloes fel gwerthwr llyfrau, ac yn ddiweddarach fel argraffydd. Ymddiddorai yn llenyddiaeth a hanes Cymru, a chyhoeddodd nifer mawr o adargraffiadau o lyfrau Cymreig, yn eu plith: *Specimens of ancient Welsh poetry* ([Evan Evans](#)), *View of the primitive ages* ([Theophilus Evans](#)), *Causes of dissent in Wales* ([A. J. Johns](#)). Efe hefyd a gyhoeddodd *Llyfryddiaeth y Cymry* ([W. Rowlands](#)), a nifer o lyfrau o'i waith ei hun: *Pryse's Welsh Interpreter*, *Breezes from the Welsh mountains*, *Cydymaith i'r Almanaciau*, *Pryse's handbook to the Radnorshire and Breconshire mineral springs*. Yn 1859 cychwynnodd y *Llanidloes and Newtown Telegraph*, papur wythnosol, yr ail a gyhoeddwyd yn Sir Drefaldwyn. Bu'n briod ddwywaith, ei wraig gyntaf yn weddw [Richard Mills](#), y cerddor. Bu farw 19 Hydref 1883.

Awdur

Idwal Lewis

Ffynonellau

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

T. Mordaf Pierce, *Y Parchedig Humphrey Gwalchmai, y bugail cyntaf un Nghyfundeb y Methodistiaid Calфинаidd gyda threm ar hanes dechreuad yr Achos yn nosbarth Llanidloes* (1908)

Gweithiau

John Pryse, James Rhys Jones a R. Richardson, *Pryse's handbook to the Breconshire and Radnorshire mineral springs: with notes and excerpts illustrating the history, antiquities, and topography of many of the surrounding towns and villages* (Llanidloes 1860)

John Pryse, *Pryse's handbook to the Breconshire and Radnorshire mineral springs: with various descriptive journeys and excursions therefrom to numerous places of interest in central Wales* (Llanidloes 1870)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733619](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

